CYNGOR CYMUNED BRITHDIR A LLANFACHRETH

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Lanfachreth
Nos Fawrth, Mawrth 15, 2016 am 7:30 o'r gloch.

AGENDA

1.Croeso'r Cadeirydd

2. Ymddiheuriadau:

3. Datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 16, 2015

5. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 16, 2015

Eitem 8.a. I bwy mae siec £300 yn mynd?

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (18/2/2016) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae eu hadroddiad blynyddol 2016/17 ar gael ar eu gwefan.

b. Lythyr (15/2/2016) oddi wrth Omwdsmon. Maent yn rhoi gwybod mae copi o Egwyddorion Gweinyddu Da a Rheoli Cofnodion yn Dda ar gael ar eu gwefan.

c. Ffurflen (Chwefror 2016) oddi wrth Tower Mint Ltd gyda chyfle i archebu medal i ddathlu penblwydd Ei Mawrhydi Elizabeth yn 90. Amgau mae sampl o'r fedal.

ch. Llythyr (2/3/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Cyllid Llywodreath Leol ar ddydd Mawrth 22/3/2016 yn Llyfrgell Rhydd, Dolgellau am 6.30. Cost y cwrs yw £35 y person.

d. Llythyr (3/3/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am cwrs Dealltwriaeth o'r Gyfraith ar ddydd Mawrth 12/04/2016 yn Theatr y Ddraig, Abermaw am 6.30. Cost y cwrs yw £35 y person.

dd. Llythyr (2/3/2016) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd y pris i lenwi un bin halen yn £156, y pris i lenwi 3 neu mwy o binniau halen yn £80 y bin. Bydd y Cyngor Cymuned yn rhoi gwybod i'r Swyddog Cyswllt pa binniau i'w llenwi. Bydd pob bin yn cael ei archwilio a'i lenwi cyn tymor y gaeaf 2016.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/54/449. Gosod colofn telathrebu12m o uchder gyda offer ategolynhyd a chabanau offer ar ran cwmni EE Cyf. (yn lle 'r mast presennol). Tir yn Coed Rhos Lwyd, Rhydymain.

ii. NP5/54/T25B. Diddymu Cytundeb Adran 106 dyddiedig 17/12/1999 mewn perthynas a cais cynllunio NP9/54/T258. Y Beudy, Dolgamedd Farm, Brithdir.

iii. NP5/54/T258A. Trosi allandy i lety gwyliau a gosod tanc septig. Y Beudy, Dologamedd Farm, Brithdir.

b. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. NP5/54/132D. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Cynllun trydan dŵr arfaethedig yn cynnwys adeiladu argae, adeilad tyrbin, a gosod pibellau uwch y ddaear. Tir yn Tŷ March Gwyn, Brithdir.

ii. NP5/54/447. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Ailwampio strwythurol yn cynnwys gosod cladin allanol. 1 & 4 Hengaer, Brithdir.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (18/2/2016) oddi wrth Pwyllgor Apel Dolgellau – Meirion Sioe Frenhinol Cymru 2016 yn diolch am ein rhodd o £250.

b. Llythyr (20/2/2016) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhydygorlan 18/2/2016)yn diolch am ein rhodd o £500.

c. Lythyr (22/2/2016) oddi wrth Ysgol Ieuan Gwynedd yn diolch am ein rhodd o £200.

ch. Lythyr (23/2/2016) oddi wrth Ysgol Gynradd Brithdir yn diolch am ein rhodd o £200.

d. Llythyr (24/2/2016) oddi wrth Papur Llafar y Deillion Dolgellau a'r Cylch yn diolch am ein rhodd o £50.

dd. Llythyr (23/2/2016) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru yn diolch am ein rhodd o £100.

f. Llythyr (23/2/2016) oddi wrth Tŷ Gobaith yn diolch am ein rhodd o £50.

ff. Llythyr (23/2/2016) oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd o £200.

g. Llythyr (25/2/2016) oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £250.

h. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Chwefror, 2016: £1,135.60.

i. Balans yn y banc ar 29 Chwefror, 2016: £5,697.41.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

10. Unrhyw fater arall

Materion i'w codi yn y Cyfarfod gan y Cynghorwyr

Problem:

Gwaith angen ei wneud i ddatrys y broblem:

Lleoliad y broblem: